

Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd) Ysbyty Llanymddyfri/ Hywel Dda

Dyddiadau arolygu: 26 a 27 Tachwedd 2019

Dyddiad cyhoeddi: 28 Chwefror 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	6
2.	Crynodeb o'n harolygiad	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
	Ansawdd profiad y claf	11
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	18
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	29
4.	Beth nesaf?	34
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	35
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	36
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	38
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	43

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Llanymddyfri, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 26 a 27 Tachwedd 2019. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ysbyty Cymunedol Llanymddyfri – ward Brianne a'r Uned mân anafiadau

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o uwch-arolygwyr gofal iechyd AGIC, un adolygwr lleysg a dau adolygwr cymheiriaid nyrsys. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o uwch-reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal parchus ac urddasol i'r cleifion ar y ward.

Roedd y staff ar y ward yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon dda i gleifion ac roedd ethos tîm cryf.

Gwelsom dystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Roedd gennym bryderon dybryd ynghylch y gallu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion, gan ein bod wedi gweld na allai'r bwrdd iechyd ddarparu'r nifer priodol y cytunwyd arno o nyrsys ar y ward ar adegau.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwelsom y staff yn ymddwyn yn garedig ac yn sensitif tuag at gleifion, ac yn cynnal eu hurddas a'u preifatrwydd
- Gwelsom y cleifion yn cymdeithasu, yn bwyta prydau ac yn chwarae gemau bwrdd ar fwrdd wedi'i leoli ar y ward
- Roedd awyrgylch braf ar y ward ac roedd cerddoriaeth a sgriniau teledu ar gael
- Roedd bwyd yn cael ei baratoi ar y safle ac roedd yn edrych ac yn aroglu'n dda, ac roedd bwrdd maeth ar gael ar y ward
- Roedd proses dda ar waith ar gyfer rheoli'r gwaith o roi meddyginiaethau a chwblhau cofnodion y cleifion.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod niferoedd digonol o nyrsys cofrestredig ar gael i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion ar y ward ac yn yr uned mân anafiadau
- Sicrhau bod mynediad i'r ysbyty yn ddiogel drwy drwsio ramp
- Sicrhau bod amgylchedd y ward a'r ystafell therapi yn lân ac yn ddiogel ac yn rhydd rhag heintiau

- Sicrhau bod y ward a'r uned mân anafiadau wedi'u diogelu'n ddigonol
- Sicrhau bod y dderbynfa a'r ystafell driniaeth yn yr uned mân anafiadau yn cael eu cloi er mwyn rhwystro mynediad anawdurdodedig
- Rhoi cymorth therapi galwedigaethol
- Sicrhau bod dulliau rheoli poen ac asesiadau o ymataliaeth y cleifion yn cael eu defnyddio ar gyfer pob claf
- Sicrhau bod dogfennaeth rhyddhau cleifion yng nghofnodion y cleifion yn cael ei chwblhau'n llawn.

Roedd gennym rai pryderon dybryd yr aed i'r afael â nhw o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. O ganlyniad i hyn, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys.

Gwelsom dystiolaeth na allai'r ward ddarparu'r nifer priodol o nyrsys cofrestredig y cytunwyd arno ar gyfer rhai sifftiau ar y rhestr waith yn Ysbyty Llanymddyfri. Roedd nyrsys cofrestredig hefyd yn gyfrifol am y ward a'r uned mân anafiadau yn ystod y dydd. Roedd hyn yn golygu, os nad oedd digon o nyrsys cofrestredig ar y ward, a bod angen nyrs gofrestrredig yn yr uned mân anafiadau, y gallai'r ward fod heb nyrs gofrestrredig ar adegau.

Dywedodd y staff wrthym fod y mater hwn wedi bod yn mynd rhagddo ers peth amser. Pwysleisiwyd hyn drwy'r gostyngiad uniongyrchol yn argaeledd nyrsys cofrestredig, oherwydd cyfnodau o salwch hirdymor, swyddi gwag a chyfnodau mamolaeth aelodau o'r staff. Pan welwyd gostyngiad yn argaeledd nyrsys cofrestredig, roedd risg y gallai gallu'r gwasanaeth i ddarparu gofal diogel ac effeithiol fod yn y fantol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn darparu gofal iechyd i boblogaeth o tua 384,000 i gyd, ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Darperir gwasanaethau iechyd meddwl, anabledau dysgu a gwasanaethau gofal iechyd eraill mewn ysbytai cyffredinol a chymunedol, canolfannau iechyd, meddygfeydd, deintyddfeydd, fferyllfeydd ac optometryddion.

Mae Ysbyty Bronglais, Ysbyty Glangwili ac Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg yn darparu gwasanaethau gofal iechyd aciwt, ac mae deuddeg ysbyty llai y mae Llanymddyfri yn un ohonynt, yn darparu gwasanaethau cymunedol a chlinigau llai.

Mae Ysbyty Cymunedol Llanymddyfri wedi'i leoli yn Sir Gaerfyrddin mewn rhan wledig o Gymru.

Ceir un ward i gleifion mewnol yn yr ysbyty (Ward Brianne) sydd ag 16 o welyau. Mae'r cleifion yn derbyn gofal mewn un ardal ward fawr ac un gilfan, ac mae tair ystafell unigol sy'n benodol ar gyfer gofal lliniarol a chleifion y mae angen mesurau rheoli heintiau arnynt er mwyn lleihau'r risg o groes-halogi. Ar adeg yr arolygiad, roedd nifer y gwelyau a oedd ar gael wedi lleihau i 11 gyda 10 claf yn bresennol. Penderfyniad y bwrdd iechyd oedd lleihau nifer y gwelyau, yn seiliedig ar argaeledd nyrsys cofrestredig, er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol. Mae'r ward yn darparu gwasanaethau ar gyfer adsefydlu cleifion; fodd bynnag, roedd yn amlwg bod cleifion ag anghenion cymhleth eraill ar y ward ar adeg yr arolygiad a bod gofal nyrsio'n cael ei ddarparu'n unol â hynny.

Mae'r ysbyty yn gweithredu nifer o wasanaethau sy'n cynnwys:

- Clinig toriadau
- Asesu anafiadau i'r llygaid
- Dulliau atal cenhedlu brys
- Castio plaster
- Pwytho
- Pelydr X

Mae uned mân anafiadau yn yr ysbyty. Mae'r nyrsys cofrestredig a gyflogir ar Ward Brianne a meddygon yn darparu gofal i gleifion yn yr uned hon, sy'n gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod awyrgylch braf ar y ward. Er bod y staff yn brysur iawn, roedd yr awyrgylch yn ddigynnwrf.

Gwelsom ryngweithio da rhwng y cleifion a'r staff, gydag enghreifftiau o staff gofalgaf a charedig.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â chleifion ar ward Brianne. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Mae'r prydau yn wych ac rwy'n cael dewis"

"Rwy'n hapus gyda fy ngofal ac yn teimlo'n ddiogel"

"Rwy'n teimlo'n oer yn ystod y nos"

"Rwy'n mwynhau chwarae gemau o amgylch y bwrdd"

Cadw'n iach

Roedd y cleifion yn cael eu hannog i ymolchi a gwisgo eu hunain os oedd eu cyflwr yn caniatáu hynny. Roedd hyn yn eu helpu i wella ac yn galluogi'r claf i ddechrau adfer y gallu i wneud gweithgareddau bob dydd.

Roedd bwrdd bwyta mawr wedi'i leoli yn y ward a gwelsom y cleifion yn bwyta prydau ac yn chwarae gemau bwrdd wrth y bwrdd. Roedd hyn yn cynnig man lle gallai'r cleifion gymdeithasu a siarad â chleifion eraill.

Gwelsom ffisiotherapydd yn chwarae gemau gyda chleifion gan eu hysgogi a rhoi mwynhad iddynt. Roedd y cleifion yn ymddangos yn fodlon ac yn cymryd rhan yn awyddus yn y gweithgaredd.

Roedd hysbysfyrddau maeth yn dangos gwybodaeth am fwyta'n iach a'r canllaw Bwyta'n Dda¹. Roedd yr hysbysfyrddau yn cynnwys gwybodaeth am y mathau gwahanol o fwyd a oedd yn ofynnol er mwyn cynnal deiet cytbwys ac iach a'r mathau o ddiodydd y dylem eu hyfed a faint ohonynt y dylem eu cael.

Gofal ag urddas

Gwelsom y staff yn ymddwyn yn ofalgar ac yn garedig wrth ddelio â'r cleifion. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn hapus â'u gofal a'u bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff yn sibwrdd wrth siarad er mwyn sicrhau nad oedd eu sgysiau'n cael eu clywed. Roedd awyrgylch braf ar y ward, gyda'r radio'n chwarae, ac roedd sgriniau teledu ar gael. Roedd bwrdd a chadeiriau ym mhrif ardal y ward, a oedd yn galluogi'r cleifion i eistedd, chwarae gemau, bwyta prydau a rhyngweithio â'i gilydd ac â'r staff.

Dywedodd y staff nyrsio wrthym eu bod yn defnyddio'r cynllun Pili Pala² gyda sticeri a marcwyr er mwyn adnabod y cleifion hynny sydd â dementia ac analluedd meddyliol mewn ffordd gynnil. Nid oeddent yn cael eu defnyddio ar adeg yr arolygiad. Cawsom dystiolaeth bod y staff wedi cael hyfforddiant ar ddementia.

Gwelsom fod tair ystafell gofal lliniarol wedi'u lleoli wrth ymyl y ward. Roedd yr ystafelloedd wedi cael eu hailwampio'n ddiweddar gyda chymorth ariannol League of Friends³. Roedd yr ystafelloedd wedi'u dodrefnu'n llawn ar gyfer cleifion a'u teuluoedd. Roedd cyfleusterau ar gael i'r teulu aros dros nos os oedd angen. Nodwyd, er bod golygfeydd braf o gefn gwlad dros y ffenestri o amgylch yr ystafelloedd, fod bylchau bach o amgylch yr ymylon a oedd yn galluogi'r ymwelwyr i weld drwodd i'r ystafelloedd. Gallai hyn amharu ar breifatrwydd ac urddas y cleifion a'u teuluoedd.

¹ <https://llyw.cymru/canllaw-bwytan-dda>

² <https://butterflyscheme.org.uk/>

³ Elusen yw Cynghrai'r y Cyfeillion a gefnogir gan wirfoddolwyr ymroddedig sy'n rhoi o'u hamser i godi arian i dalu am gyfleusterau y mae eu dirfawr angen a phethau eraill sy'n gwneud i'r cleifion deimlo'n gartrefol.

Roedd digon o arwyddion ar y ward ac roedd yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn. Fodd bynnag, nid oedd y toiled i ymwelwyr yn addas i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Roedd cyfleusterau toiled ac ystafell ymolchi i gleifion ar gael ar y ward, a chawsom wybod bod rhai ar wahân ar gyfer dynion a merched.

Nododd un claf ei fod yn teimlo'n oer yn ystod y nos ac y gallai deimlo drafft. Gwelsom fod gwely'r claf wedi'i leoli wrth ymyl drws.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod yr ystafelloedd gofal lliniarol yn hollol breifat a bod bylchau o amgylch y ffenestri wedi'u gorchuddio.
- Bod y toiledau i ymwelwyr yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn.
- Nad oes drafftiau yn unrhyw un o ardaloedd y cleifion.

Gwybodaeth ar gyfer cleifion

Gwelsom fod gwybodaeth wedi'i chyflwyno ar waliau'r ward a hysbysfyrddau am y Gymdeithas Strôc, y Gymdeithas Alzheimer's, Cymorth Cancer Macmillan, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru. Roedd rhai o'r hysbysiadau'n ddwyieithog. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth am roi'r gorau i smygu nac iechyd a llesiant. Hefyd, gwelsom fod rhai hysbysfyrddau a oedd wedi'u lleoli ar y ward yn edrych yn hen ac wedi treulio.

Nid oedd yr hysbysfwrdd i ofalwyr yr ysbyty wedi'i leoli ar y ward ac nid oedd yn hysbysebu hyrwyddwr gofalwyr yr ysbyty.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod hysbysfyrddau newydd yn cael eu gosod yn lle hen rai sydd wedi treulio

- Bod gwybodaeth am roi'r gorau i smygu ac iechyd a llesiant yn cael ei chyflwyno ar hysbysfyrddau lle gall cleifion, ymwelwyr a staff ei gweld
- Bod gwybodaeth i ofalwyr yn cael ei chyflwyno ar hysbysfwrdd ar y ward a bod hyrwyddwr gofalwyr yn cael ei enwebu.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd yn ymddangos bod gan y staff gydberthynas dda â'r cleifion a'u bod yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu mewn ffordd dawel er mwyn cynnal cyfrinachedd.

Gwelsom fod anghenion y cleifion o ran iaith a chyfathrebu yn cael eu hystyried gan staff y ward ac yn cael eu teilwra i'r unigolyn.

Nodwyd nad oedd trefniadau eiriolaeth yn cael eu hysbysebu.

Nid oes bwrdd cipolwg ar statws cleifion⁴ ar y ward i roi gwybodaeth am gleifion a materion staffio mewn cyfarfodydd trosglwyddo. Felly, mae'r staff yn dibynnu ar drosglwyddo gwybodaeth ar lafar a thrwy fwrw golwg dros gofnodion y cleifion, ac amserlen sifftiau cyflogaion sef y rhestr waith oddi ar ddyletswydd⁵.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gael i bob claf
- Bod y ward yn cynnwys bwrdd cipolwg ar statws cleifion cyfrinachol.

⁴ Mae byrddau cipolwg ar statws cleifion yn dangos gwybodaeth am gleifion a materion staffio i sicrhau eglurder o ran pwy sy'n gwneud beth, ar gyfer pwy, ac mae'n rhoi strwythur i gyfarfodydd trosglwyddo'r staff.

⁵ Rhestr o aelodau o staff gyda'r diwrnodau a'r amseroedd nad ydynt yn gweithio yw'r rhestr waith oddi ar ddyletswydd. Mae'n galluogi'r rheolwyr i flaen-gynllunio a sicrhau lefelau priodol o staff er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Gofal amserol

Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r gofal a ddarperir i'r cleifion yn cael ei ddyddio mewn cofnodion cleifion, fodd bynnag, nid oedd amseru'r gofal a ddarparwyd yn cael ei gofnodi, er mwyn sicrhau y gellir cynnal cofnodion cyfredol.

Gwelsom un claf yn galw am gymorth gan nyrs o ardal gofal lliniarol ar y ward. Roedd y ward yn brysur ac roedd nifer y nyrsys cofrestredig a chynorthwywyr gofal iechyd yn gyfyngedig. Bu'n rhaid i ni ddweud wrth y staff bod angen cymorth ar y claf. Ymatebodd staff y ward i'n cais.

Gwelsom Feddygon Teulu lleol yn darparu gofal meddygol beunyddiol i gleifion, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Cawsom wybod bod cleifion a oedd wedi cael eu trosglwyddo o ysbytai cyffredinol dosbarth hefyd yn cael adolygiad wythnosol gan eu meddygon hymgyngorol, ac ar bob diwrnod arall eu bod yn cael gofal gan feddygon teulu lleol. Yn dilyn trafodaeth â chlaf, gwnaethom dynnu sylw'r meddyg teulu ar ddyletswydd at nifer o faterion gofal iechyd. Cymerodd y meddyg teulu gamau ar unwaith i adolygu cofnodion y claf a chymryd camau priodol.

Cawsom wybod bod nifer y gwelyau sydd ar gael ar y ward wedi lleihau o 18 i 11. Roedd hyn mewn ymateb uniongyrchol i'r lleihad yn nifer y nyrsys cofrestredig o ganlyniad i swyddi gwag, salwch, cyfnod mamolaeth ac ymddiswyddiadau. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth, er gwaethaf y gostyngiad yn nifer y gwelyau, nad oedd y nifer gofynnol o nyrsys cofrestredig yn gweithio ar rai sifftiau. Cawsom dystiolaeth ychwanegol bod uwch reolwyr wedi gwneud argymhelliad i'r bwrdd iechyd leihau nifer y gwelyau ymhellach.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod y dyddiad a'r amser y darperir gofal i'r cleifion yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion
- Bod y nifer priodol o nyrsys cofrestredig ar gael bob sifft er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion
- Bod cynllun recriwtio a chadw nyrsys yn cael ei roi i AGIC, gan ddangos sut yr eir i'r afael â phrinder staff.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom nifer o'r cleifion yn defnyddio ystafell ddydd, sy'n cynnwys teledu a chadeiriau cyfforddus, yn annibynnol.

Nid oedd cofnodion y cleifion a welwyd fel rhan o'r arolygiad yn cynnwys cynllun rhyddhau wedi'i gwblhau, nac yn cofnodi camau posibl i adsefydlu unigolyn neu i gynllunio ei ryddhau. Mae'r ddogfen hon yn ffurfio rhan bwysig o'r camau i ryddhau claf gan ei bod yn sicrhau parhad gofal, yn asesu'r cymorth sy'n ofynnol gan y claf pan fydd yn gadael yr ysbyty ac unrhyw anghenion gofal iechyd parhaus.

Gwnaethom nodi bod cymorth therapi galwedigaethol⁶ yn gyfyngedig i un bore yr wythnos, ac nid oedd nodiadau therapi galwedigaethol i'w gweld yng nghofnodion y cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod cynlluniau rhyddhau yn cael eu cwblhau'n llawn, yn cynnwys cynlluniau adsefydlu a rhyddhau pob claf
- Bod lefel y cymorth therapi galwedigaethol sydd ar gael i'r cleifion yn cael ei hadolygu, ac y nodir y therapi yn llawn yng ngofnodion y cleifion.

Hawliau pobl

Roedd y cleifion yn gallu dewis eu prydau ac yn cael yr opsiwn o fwyta prydau wrth fwrdd mawr ar y ward, neu aros wrth eu gwely.

⁶ Mae therapyddion galwedigaethol yn helpu'r cleifion i ddatblygu a gwella, yn ogystal â chynnal y sgiliau sydd eu hangen i fyw a gweithio o ddydd i ddydd.

Roedd y cleifion hefyd yn gallu eistedd wrth fwrdd mawr ar y ward a chwarae gemau gyda'i gilydd yng nghwmni aelod o'r staff.

Roedd capel ar gael yn yr ysbyty i ddiwallu anghenion ysbrydol y cleifion.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom wybodaeth am y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion⁷ yn Ysbyty Llanymddyfri.

Nid oedd y ward yn ceisio adborth gan y cleifion ac nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y ward yn ymateb i brofiadau cleifion ac ymwelwyr. Dylai gwasanaethau gofal iechyd ystyried anghenion cleifion ac ymwelwyr – dylent deimlo eu bod yn cael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau. Mae'r profiadau hyn yn rhoi safbwynt defnyddwyr y gwasanaeth i'r bwrdd iechyd ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, ac maent yn ei alluogi i fonitro perfformiad a dangos y gwersi a ddysgwyd a'r gwelliant.

Roedd yr hysbysfyrddau ar y ward yn cynnwys taflenni ar gyfer proses Gweithio i Wella⁸ y GIG i gleifion nac ymwelwyr fynd â nhw. Fodd bynnag, nid oedd y ward yn arddangos unrhyw bosteri Gweithio i Wella. Roedd hyn yn golygu nad oedd cleifion ac ymwelwyr yn cael manylion llawn y broses ar gyfer lleisio pryder.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod y ward yn ceisio adborth gan y cleifion ac yn ymateb i brofiadau cleifion a defnyddwyr gan ddangos y gwersi a ddysgwyd a'r gwelliant a wnaed o ganlyniad i hynny
- Bod poster Gweithio i Wella dwyieithog yn cael ei roi ar hysbysfwrdd ar y ward.

⁷ Mae'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion yn bwynt cyswllt ar gyfer cleifion, teuluoedd a gofalwyr ac mae'n cynnig cyngor, cymorth a gwybodaeth.

⁸ Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon yn y GIG.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwnaethom nodi bod trefniadau effeithlon ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau a bod gwiriadau gorfodol yn cael eu cwblhau ar gyfarpar dadebru.

Roedd y staff yn cael hyfforddiant digonol mewn diogelwch tân, symud, codi a chario, a dadebru.

Gwnaethom nodi bod y llawr mewn cyflwr gwael mewn rhai mannau, a bod angen hysbysfyrddau a biniau newydd. Gwelsom fod blychau offer miniog wedi'u gadael ar agor, a bod prydau parod wedi'u rhewi mewn rhewgell wyneb gweithio wedi mynd heibio i'w dyddiad darfod neu nad oedd dyddiad darfod arnynt o gwbl.

Gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau mynediad diogel i'r ysbyty.

Gwelsom fod ystafell therapi a ddefnyddir at ddibenion adsefydlu cleifion yn cael ei defnyddio fel ystafell storio. Roedd yr ystafell yn anniben, yn fudr ac yn llychlyd.

Gwelsom ddwy ddyfais diffodd tân wedi'u gosod ar y llawr yn yr ystafell therapi – nid oeddent wedi'u gosod ar wal/mewn crud, a oedd yn peri risg o faglu i'r cleifion a'r staff.

Gwnaethom nodi y gellid gwella diogelwch ar y ward drwy gyfyngu ar fynediad i'r ward ac ardaloedd therapi.

Gwelsom nad oedd y drysau i'r gegin, ystafell y staff, yr ystafell driniaeth, yr ystafell olchi na derbynfa'r uned mân anafiadau wedi'u cloi. Gallai hyn beryglu diogelwch y cleifion a'r ymwelwyr, ynghyd â chyfrinachedd y cleifion.

Ar adeg yr arolygiad, cawsom wybod bod prinder staff nyrsio o ganlyniad i swyddi gwag, absenoldeb oherwydd salwch, cyfnod mamolaeth ac ymddiswyddiadau.

Gofal diogel

Aethpwyd i'r afael â'n pryder uniongyrchol ynghylch argaeledd cyfyngedig nyrsys cofrestredig sy'n darparu gofal ar Ward Brianne ac yn yr uned mân anafiadau drwy ein proses sicrwydd uniongyrchol. O ganlyniad i hyn, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom dystiolaeth bod gan y bwrdd iechyd gofrestr risg leol a bod y materion yn ymwneud ag argaeledd cyfyngedig staff yn Ysbyty Llanymddyfri wedi'i nodi. Fodd bynnag, nid oedd y gofrestr yn cynnwys effaith darparu cymorth nyrsio yn yr uned mân anafiadau. Ni chafodd y risg hon ei hadlewyrchu ar gofrestr risg gorfforaethol y bwrdd iechyd.

Gwelsom dystiolaeth nad oedd unrhyw bryderon parhaus na digwyddiadau anffodus difrifol⁹ yn Ysbyty Llanymddyfri.

Gwelsom gofnodion yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant digonol mewn diogelwch tân, symud, codi a chario, a dadebru.

Gwelsom fod ardal y ward yn lân. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos yn anniben sy'n dangos nad oes digon o le storio. Gwelwyd bod y llawr wedi'i ddifrodi a'i farcio mewn mannau gan beri risg bosibl o faglu a bod plaster wedi torri ar uned sinc, gan beri problemau o ran rheoli heintiau. Gwelsom fod nifer o flychau offer

⁹ Digwyddiad mewn perthynas â gofal a gwasanaethau a ariennir gan y GIG a gofal sy'n arwain at farwolaeth, niwed neu anaf i glaf, gofalwr, aelod o staff neu ymwelydd, sy'n annisgwyl neu y gellid bod wedi ei (h)osgoi.

miniog¹⁰ wedi'u gadael ar agor ar y ward. Dylid dod i'r arfer o gau'r blychau ar ôl eu defnyddio. Cawsant eu cau gan y tîm Arolygu.

Gwelsom fod ystafell therapi'n cael ei defnyddio i helpu i adsefydlu cleifion, a oedd yn llychlyd ac yn fudr. Roedd rhannau o fwrdd sgyrtin wedi torri yn peri risg i'r cleifion a'r staff. Roedd yr ystafell yn anniben gyda dillad gwely, matresi a chyfarpar budr ac addurniadau Nadolig llychlyd. Yn yr ystafell therapi, gwelsom uned rhewgell wyneb gweithio a oedd yn cynnwys nifer o brydau wedi'u rhewi. Roedd un o'r prydau wedi mynd heibio i'w dyddiad darfod ac nid oedd y gweddill yn dangos dyddiadau darfod. Dywedwyd wrthym fod y rhain yn cael eu defnyddio gan staff therapi galwedigaethol i adsefydlu cleifion. Ar gais AGIC, cafodd y prydau wedi'u rhewi eu gwaredu.

Roedd dwy ddyfais diffodd tân wedi'u gosod ar y llawr yn yr ystafell therapi – dylent fod wedi'u gosod mewn crud neu ar y wal. Roedd y rhain yn peri risg o faglu i'r staff a'r cleifion.

Gwelsom nad oedd y drysau i'r ward wedi'u cloi a bod y drysau tân wedi'u gadael ar agor, a oedd yn peri risg y gallai'r cleifion grwydro oddi ar y ward i'r prif ysbyty. Gwelsom fod y drysau i gegin y staff ac ystafell y staff wedi'i adael ar agor. Gallai'r cleifion gael gafael ar gyllyll yn y gegin a chyfleuster dŵr poeth yn ystafell y staff, a oedd yn peri risg o niwed posibl iddynt. Gwelsom fod y drws i ystafell storio y tu allan i'r ward hefyd ar agor, ac ynddi roedd sychwr gwallt â chebl yn y golwg ar ben troli hefyd yn peri risg o niwed i'r cleifion, yn enwedig y rheini â phroblemau galluedd meddyliol a dementia. Gwelsom hefyd fod yr ystafell yn fudr ac yn llychlyd. Ar ôl i ni ofyn, caewyd drysau ystafell y staff a'r gegin, a chafodd drws yr ystafell storio ei gau a'i gloi.

Roedd drws y dderbynfa yn yr uned mân anafiadau heb ei gloi. Nid oedd unrhyw staff ar ddyletswydd. Bu modd i ni gerdded i mewn i'r dderbynfa a chael gafael ar gardiau argyfwng cleifion sy'n dangos gwybodaeth gyfrinachol am gleifion. Gwnaethom leisio ein pryderon gyda'r staff a chafodd y drws ei gau a'i gloi.

Roedd y drws i'r ystafell driniaeth a leolir yn yr uned mân anafiadau heb ei gloi a oedd yn golygu y gallai'r cyhoedd fynd i mewn yn rhwydd gan beri risg bosibl o

¹⁰ **Cynwysyddion plastig caled yw blychau offer miniog** a ddefnyddir i gael gwared ar nodwyddau hypodermig a chyfarpar meddygol miniog arall yn ddiogel.

niwed gan feddyginiaeth, sisyrnau, cemegion a chyfarpar. Gwnaethom leisio ein pryderon gyda'r staff a chafodd y drws ei gloi.

Yr ystafell driniaeth yn yr uned mân anafiadau oedd y brif ystafell driniaeth ar gyfer y ward hefyd. Roedd y ffaith ei bod wedi'i lleoli ar wahân i'r ward yn golygu y gallai'r nyrsys cofrestredig fod i ffwrdd o'r cleifion am beth amser, a allai olygu bod gofal diogel ac effeithiol yn y fantol. Nid oes botwm argyfwng yn yr ystafell, a oedd yn atal y staff rhag galw am gymorth brys yn effeithiol os byddai ei angen, wrth drin cleifion yn yr uned mân anafiadau.

Roedd yr ardal olchi wedi'i lleoli ar wahân i'r ward ac ar adeg yr arolygiad roedd heb ei chloi. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i'r staff adael y ward er mwyn mynd i'r ardal hon a allai olygu bod y ward heb ddigon o staff arni neu fod y gofal gan nyrsys cofrestredig yn gyfyngedig. Yn ogystal, gallai pobl anawdurdodedig gael mynediad i'r ardal, gan arwain at groes-halogi o bosibl. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth o ardal storio y gellir ei chloi ar gyfer cynhyrchion glanhau yn yr ystafell olchi ac ar y ward.

Dywedodd claf wrthym fod y dŵr o dap dŵr poeth yn yr ystafell ymolchi a oedd wedi'i lleoli ger y ward yn chwilboeth. Gwnaethom hysbysu rheolwr y gwasanaeth ar unwaith a gadarnhaodd y byddai trefniadau'n cael eu gwneud i sicrhau bod tymheredd y dŵr yn cael ei gynnal yn gywir.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod y gofrestr risg leol a chorfforaethol yn adlewyrchu prinder staff nyrsio yn Ysbyty Llanymddyfri, ac effaith darparu gofal nyrsio priodol ar y ward ac yn yr uned mân anafiadau
- Nad yw'r ward yn anniben a bod digon o le storio
- Bod y rhannau o'r llawr sydd wedi'u difrodi a'u marcio yn cael eu trwsio neu fod llawr newydd yn cael ei osod
- Bod blychau offer miniog yn cael eu cau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
- Bod yr ystafell therapi yn cael ei glanhau, ei chlirio, bod cyfarpar therapi budr yn cael ei lanhau neu fod cyfarpar newydd yn cael ei osod, a bod byrddau sgyrtin sydd wedi torri yn cael eu trwsio neu fod rhai newydd yn cael eu gosod

- Bod bwyd wedi'i rewi ar gyfer annog adsefydlu cleifion yn cael ei storio'n briodol, a bod y dyddiadau defnyddio yn cael eu gwirio'n rheolaidd gan y staff a enwebwyd
- Bod pob dyfais diffodd tân yn cael ei gosod ar standiau neu ar y wal
- Bod y drysau i'r ward, y gegin ac ystafell y staff yn cael eu cadw ar glo yn ddigonol
- Bod y dderbynfa yn yr uned mân anafiadau yn cael ei chloi fel mater o drefn a bod gwybodaeth sensitif am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel
- Bod yr ystafell storio yn cael ei glanhau a'i chloi pan nad yw'n cael ei defnyddio
- Bod yr ardal olchi a'r ystafell driniaeth yn cael eu cloi fel mater o drefn pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
- Bod botwm argyfwng yn cael ei osod yn yr ystafell driniaeth
- Bod y dŵr poeth yn cael ei gynnal ar y tymheredd cywir.

Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd

Dangosodd nodiadau'r cleifion yr edrychwyd arnynt fel rhan o'r arolygiad fod asesiadau risg o friwiau pwyso a niwed i feinweoedd a gwblhawyd gan yr ysbyty cyffredinol dosbarth wedi cael eu trosglwyddo i Ysbyty Llanymddyfri. Fodd bynnag, nid oedd yr asesiadau risg hyn wedi cael eu hailasesu fel mater o drefn o fewn 24 awr i dderbyn claf yn unol â'r meini prawf a argymhellir yn adnodd asesu Waterlow¹¹. Er bod nodiadau'r cleifion yn nodi bod adolygiad yn mynd rhagddo o'r broses o asesu briwiau pwyso a niwed i feinweoedd, nid oedd siart asesu Waterlow yn cael ei diweddarau. Mae'r siart hon yn darparu asesiad gweledol parhaus o'r risg o friwiau pwyso a niwed i feinweoedd.

¹¹ Defnyddir adnodd asesu Waterlow ynghyd â barn broffesiynol i nodi risg amcangyfrifedig y bydd claf yn datblygu briwiau pwyso neu niwed i feinweoedd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Yn unol ag arferion da, bod asesiadau risg yn cael eu hailasesu o fewn 24 awr i dderbyn claf a bod asesiad parhaus yn cael ei gofnodi ar y siart asesu.

Atal cwympiadau

Roedd cofnodion y cleifion yn cynnwys cynllun gofal ar gyfer cwympiadau, sy'n rhoi asesiad o'r risg o gwympiadau a chynllun gofal cysylltiedig.

Roedd gan yr ysbyty nyrs eiddilwch ar ôl cwympiadau a oedd wedi'i lleoli yn yr ysbyty. Dim ond cleifion yn y gymuned y mae'r nyrs arbenigol ar gyfer cwympiadau yn eu gweld.

Atal a rheoli heintiau

Roedd y polisïau atal a rheoli heintiau safonol yn gyfredol ac ar gael ar fewnwyd y bwrdd iechyd.

Roedd ystafelloedd ochr ar gael ar gyfer cleifion ag anghenion gofal lliniarol. Roedd y cyfleusterau hyn hefyd ar gael i gleifion â heintiau.

Gwelsom hysbysiadau hylendid dwylo o amgylch y ward yn annog cleifion, ymwelwyr a staff i olchi eu dwylo yn y ffordd fwyaf effeithiol. Gwelsom hefyd fod mannau diheintio'r dwylo wedi eu lleoli wrth ymyl mynedfeydd/allanfeydd ac ddefnydd y staff ac ymwelwyr, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Gwelsom gofnodion yn nodi bod y staff wedi cael hyfforddiant digonol mewn atal a rheoli heintiau yn unol â gofynion hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd.

Roedd y ward yn ymddangos yn lân. Gwelsom fod gwelyau a chadeiriau'r cleifion yn lân ac wedi'u cynnal a'u cadw'n briodol. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth bod rhannau o'r llawr a hysbysfyddau wedi'u difrodi ac wedi treulio, ac roedd yr holl finiau metel ar y ward wedi rhydu.

Nid oedd unrhyw wybodaeth am gyfraddau heintiau ar hysbysfyddau'r ward. Mae ffurflenni atal a rheoli heintiau effeithiol yn rhan o ofal iechyd bob dydd a dylai'r ward gyflwyno gwybodaeth addas a chywir yn seiliedig ar dystiolaeth am heintiau ar hysbysfyddau'r ward.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod biniau metel newydd yn cael eu darparu
- Bod y ward yn cyflwyno gwybodaeth addas a chywir yn seiliedig ar dystiolaeth am heintiau ar hysbysfyddau'r ward.

Maeth a hydradu

Roedd gan y ward fwrdd maeth a oedd yn cynnwys canllaw bwyta'n dda a gwybodaeth am ffyrdd o fwyta'n iach. Roedd gwybodaeth am Fynegai Màs y Corff¹² hefyd ar gael.

Roedd prydau'n cael eu coginio ar y safle – roeddent yn edrych yn flasus – roeddent yn boeth ac wedi'u cyflwyno'n dda, ac roeddent yn cael eu gweini ar adegau rheolaidd. Roedd amseroedd bwyd y cleifion yn cael eu gwarchod. Gwelwyd bod y cleifion yn cael cynnig dewisiadau ac yn cael eu hannog a'u cefnogi i fwyta ar adegau rheolaidd. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd.

Roedd dŵr yfed ffres a diodydd poeth ar gael i bob claf.

Roedd adnodd sgrinio maeth oedolion ar gael er mwyn asesu statws maeth y cleifion. Fodd bynnag, nid oedd asesiadau risg maeth wedi'u cwblhau ar gyfer pob claf a adolygwyd fel rhan o'r arolygiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

¹² Mesuriad yw mynegai màs y corff sy'n defnyddio taldra a phwysau i benderfynu a yw rhywun dan bwysau neu dros bwysau.

- Bod anghenion maeth yr holl gleifion yn cael eu hasesu, eu cofnodi a'u trin yn ddigonol lle y bo'n berthnasol.

Rheoli meddyginiaethau

Mae fferyllfeydd y bwrdd iechyd, y fferyllfa leol a fferyllfa'r meddyg teulu yn darparu meddyginiaeth. Mae gwasanaeth cludo'r bwrdd iechyd ar gael ar gyfer trosglwyddo meddyginiaeth yn ystod yr wythnos ac mae gwasanaeth cludo ar gael ar benwythnosau.

Roedd y staff yn ymwybodol o bolisiâu'r bwrdd iechyd ar gyfer rheoli meddyginiaethau a gwnaethant ein hysbysu ei bod yn hawdd cael gafael arnynt ar fewnrwyd y bwrdd iechyd.

Roedd nyrsys cofrestredig yn gwisgo tabardiau Peidiwch â Tharfu/Do Not Disturb er mwyn dangos eu bod yn brysur yn paratoi ac yn rhoi meddyginiaeth i'r cleifion. Roedd gan y nyrsys ddigon o fenig, ffedogau, gel saniteiddio dwylo a sebon golchi dwylo, ac roedd y troli meddyginiaeth yn cael ei goruchwyllo'n ofalus.

Roedd meddyginiaeth a chyffuriau a reolir yn cael eu storio'n briodol mewn cwpwrdd y gellir ei gloi a gwelwyd eu bod yn cael eu gwirio bob dydd. Gwelsom fod yr oergell feddyginiaeth wedi'i chloi ac ar y tymheredd cywir. Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd priodol, i sicrhau ei bod yn ddiogel ei defnyddio.

Roedd yr holl gleifion yn gwisgo'r bandiau braich cywir ac roeddent wedi'u gosod mewn safle cyfforddus wrth gymryd eu meddyginiaeth. Wrth edrych ar gofnodion meddyginiaeth y cleifion gwelwyd bod y broses o roi meddyginiaeth yn cael ei dangos ar siart rhagnodi'r cleifion, ac yng nghofnodion y cleifion. Gwelwyd bod y rhain yn glir, yn gryno ac wedi'u dyddio.

Roedd cofnodion y cleifion yn ymgorffori'r broses o roi analgesia ond nid oeddent yn cofnodi effeithiolrwydd y broses hon o leddfu poen. Nid oedd yr ysbyty yn defnyddio dull o reoli poen nac yn cofnodi sgoriau poen¹³.

¹³ Defnyddir dull o reoli poen gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn dogfennu ac asesu lefel y boen a monitro effeithiolrwydd ymyriadau poen.

Nid oedd unrhyw gleifion yn cael ocsigen ar adeg yr arolygiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Y defnyddir dull o reoli poen er mwyn cofnodi sgoriau poen a sicrhau effeithiolrwydd prosesau lleddfu poen i bob claf.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom gofnodion a oedd yn cadarnhau bod y staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion a phlant, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y ddeddf galluedd meddyliol ac iechyd a diogelwch a lles.

Roedd polisïau ar waith ar gyfer diogelu oedolion a phlant. Roeddent yn gyfredol ac ar gael ar fewnwyd y bwrdd iechyd.

Roedd cofnodion y cleifion yn rhoi tystiolaeth o'r asesiadau o alluedd meddyliol a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid¹⁴.

Rheoli gwaed

Gwelwyd tystiolaeth bod yr ysbyty yn defnyddio adnodd sgrinio am sepsis¹⁵.

Cawsom wybod bod gwasanaeth cludo y bwrdd iechyd ar gael i drosglwyddo cyfansoddion gwaed a chynhyrchion gwaed yn ystod yr wythnos, a bod gwasanaeth cludo gwirfoddol ar gael ar benwythnosau

¹⁴ Mae'r trefniadau diogelu yn rhan o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a'u nod yw sicrhau y gofelir am bobl mewn cartrefi gofal ac ysbytai mewn ffordd nad yw'n cyfyngu ar eu ryddid.

¹⁵ Gellir defnyddio'r adnodd hwn i adnabod sepsis yn gynnar ac arwain at ddiagnosis a thriniaeth well.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom declynnau codi cleifion, silindrau ocsigen a chadeiriau breichiau yn y coridor sy'n arwain o'r fynedfa i'r ysbyty. Er bod y rhain wedi'u gosod ar ochr y coridor, roeddent yn rhwystr posibl i ddefnyddwyr cadair olwyn a throlïau cleifion.

Roedd yn ymddangos bod y cyfarpar ar y ward yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod storfa amgen yn cael ei darparu ar gyfer dodrefn a chyfarpar cleifion gyda'r bwriad o ddileu rhwystrau mewn ardal gyhoeddus.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd safon y cofnodion nyrsio a chofnodion meddygol y cleifion yn dda. Roedd yn ymddangos bod dogfennaeth nyrsio yn gyflawn ac yn hawdd ei darllen. Roedd yn anoddach dehongli rhai nodiadau meddygol, gan nad oedd y llawysgrifen yn glir ac nid oedd enw na dynodiad y meddyg wedi cael eu hysgrifennu wrth y llofnod. Nid oedd amseroedd darparu gofal i'r cleifion wedi'i gofnodi chwaith, gan ddibynnu ar y dyddiad yn unig.

Gwelsom nad oedd asesiadau o ymataliaeth cleifion wedi'u cofnodi yng nghofnodion y cleifion. Mae asesiadau o ymataliaeth yn helpu i nodi ffactorau a all fod yn cyfrannu at broblemau ymataliaeth a'r nod yw cyflwyno ffyrdd o wella neu reoli'r broblem.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod pob clinigydd yn nodi'r dyddiad a'r amser ac yn argraffu ac yn llofnodi'r hyn mae'n ei nodi yng nghofnodion y cleifion
- Y caiff asesiadau o ymataliaeth y cleifion eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Ni welwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y ward yn ymgymryd â gweithgareddau gyda'r nod o wella drwy ddatblygu ffyrdd arloesol o ddarparu gofal a'u rhoi ar waith.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn cael hyfforddiant digonol ym maes llywodraethu gwybodaeth yn unol â gofynion hyfforddiant y bwrdd iechyd.

Cawsom wybod bod rheolwyr y ward yn gallu cael gafael ar y Cofnod Staffio Electronig (ESR)¹⁶ i'w galluogi i ddiweddarau ac adolygu gwybodaeth am gyflogeion a'r gweithlu. Roedd y staff hefyd yn gallu cael gafael ar bolisiâu a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd ar ffurf electronig drwy fewnrwyd y bwrdd iechyd.

Cadw cofnodion

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd safon cofnodion y cleifion yn dda. Roedd yn ymddangos bod y ddogfennaeth nyrsio yn gyflawn ac yn hawdd ei darllen. Fodd bynnag, roedd yn anoddach dehongli rhai nodiadau meddygol. Yn ogystal, nid oedd y ddogfen asesu a chynllunio ar gyfer cofnodi pan fyddai cleifion yn cael eu rhyddhau yn cael ei chwblhau. Nid oedd cofnodion y cleifion a welwyd fel rhan o'r arolygiad yn cofnodi cyfarfodydd budd pennaf, gofal iechyd parhaus mewn perthynas â chynllunio i ryddhau cleifion, gweithwyr cymdeithasol na chymorth therapi galwedigaethol.

¹⁶ System Adnoddau Dynol a Chyflogres interedig y GIG yw'r Cofnod Staffio Electronig.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd diwylliant tîm cryf yn amlwg gyda phawb yn cyd-dynnu'n dda.

Cymerodd yr uwch-reolwyr a ddaeth i'r ysbyty ar gais AGIC gryn ddiddordeb yn yr arolygiad, gan gymryd camau ar unwaith lle roedd angen.

Lleisiodd y staff bryderon nad oeddent yn gallu cymryd egwyl yn ystod sifftiau weithiau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Cawsom gopi o strwythur y bwrdd iechyd mewn perthynas â Thîm Sirol Caerfyrddin. Roedd y strwythur hwn yn rhoi manylion y rheolwyr sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau a gofal meddygol a gofal nyrsio yn Ysbyty Llanymddyfri.

Nid oedd rheolwyr ar y ward pan wnaethom gyrraedd yr ysbyty, a oedd o ganlyniad uniongyrchol i absenoldeb oherwydd salwch. Yn absenoldeb rheolwr y ward a dirprwy reolwr y ward, roedd y nyrs arwain glinigol a rheolwr y gwasanaeth ar gyfer y Tîm Sirol yn bresennol yn yr arolygiad.

Deuthum yn ymwybodol bod prinder nyrsys cofrestredig yn yr ysbyty. Cawsom wybod bod swyddi nyrsio wedi cael eu hysbysebu, ond na lwyddwyd i ddenu ymgeiswyr. O ganlyniad, cawsom wybod bod uwch-reolwyr yn ystyried hysbysebu swydd gylchdro gydag ysbyty Glangwili, i roi cyfle i nyrs gofrestredig weithio yn y gymuned ac mewn lleoliad gofal iechyd acíwt.

Cawsom gopi o'r gofrestr risg leol¹⁷ a oedd yn nodi bod risg o brinder nyrsys cofrestredig yn Ysbyty Llanymddyfri. Fodd bynnag, cawsom wybod nad oedd y risg hon wedi cael ei huwchgwyfeirio i gofrestr risg gorfforaethol¹⁸ y bwrdd iechyd. Rhoddodd y nyrs arwain glinigol gopi i ni o ddogfen asesu risg a oedd wedi'i huwchgwyfeirio i uwch-reolwyr y bwrdd iechyd yn nodi'r pryderon mewn perthynas â lefelau staff nyrsio.

Cawsom wybod am gynnig a wnaed i leihau nifer y gwelyau i gleifion yn Llanymddyfri i naw gwely, a chael dim ond un nyrs gofrestredig ar ddyletswydd ar gyfer pob sifft. Nid oedd yr angen i gefnogi'r uned mân anafiadau gyda staff nyrsio cofrestredig o'r ward wedi cael ei ystyried. Gallai rhoi'r cynnig hwn ar waith olygu bod gofal diogel ac effeithiol yn y fantol, gyda dim ond un nyrs gofrestredig ar gael i ddarparu gofal i gleifion ar y ward, a chleifion sy'n mynd i'r uned mân anafiadau.

Drwy edrych ar restrau gwaith oddi ar ddyletswydd y staff rhwng mis Awst 2019 a mis Tachwedd 2019, gwelsom enghreifftiau o'r adegau pan mai dim ond un nyrs gofrestredig oedd yn bresennol ar y ward, pan ddylai fod dwy yn bresennol o leiaf er mwyn sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu i'r cleifion. Roedd hyn yn amlwg ar fore'r arolygiad gan mai dim ond un nyrs gofrestredig oedd ar gael i ddarparu gofal i'r cleifion ar y ward ac roedd hefyd disgwyl iddi ddelio â'r cleifion a oedd yn mynd i uned mân anafiadau'r ysbyty.

O edrych ar gofnodion dau gyfarfod staff, gwelsom nad oedd agenda benodol ac mai nifer bach o'r staff a oedd yn bresennol. Ni wnaethom lwyddo i ddod o hyd i dystiolaeth i nodi a oedd y staff wedi'u darllen. Cawsom wybod bod cofnodion yn cael eu darparu i'r staff a'u rhoi ar yr hysbysfwrdd yn ystafell y staff.

Cododd aelodau o'r staff bryderon gyda'r tîm arolygu mewn perthynas â llesiant y staff. Gwnaethant nodi bod adegau pan nad oeddent yn gallu cymryd egwyl yn ystod eu sifftiau. Gall gweithio oriau eithriadol o hir ar sifft heb gymryd egwyl

¹⁷ Cofnod o'r risgiau sy'n bygwth gallu sefydliad i gyflawni ei nodau a'i amcanion yw cofrestr risg.

¹⁸ Mae cofrestr risg gorfforaethol yn adlewyrchu risgiau i'r sefydliad cyfan.

arwain at flinder, torri'r Rheoliadau Oriau Gwaith¹⁹, a chynyddu'r risg o niwed i'r cleifion oherwydd blinder.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod yr Uwch-reolwyr yn cynnal asesiad risg llawn o'r lefelau staffio yn Ysbyty Llanymddyfri ac yn sicrhau bod y nifer cywir o nyrsys cofrestredig ar y rhestr waith ar gyfer pob sifft er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol i bob claf
- Bod agenda ar gyfer cyfarfodydd tîm y staff, bod y cofnodion yn cael eu dosbarthu i bob aelod o'r staff ac y gofynnir i'r staff gadarnhau eu bod wedi darllen y cofnodion
- Bod yr Uwch-reolwyr yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y cyfle i gymryd egwyl pan fyddant ar ddyletswydd.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Aethpwyd i'r afael â'n pryder uniongyrchol ynghylch argaeledd cyfyngedig nyrsys cofrestredig sy'n darparu gofal ar Ward Brianne ac yn yr uned mân anafiadau yn Ysbyty Llanymddyfri drwy ein proses sicrwydd uniongyrchol.

Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau eu swyddi ac yn ceisio darparu gofal o safon uchel. Gwnaethant nodi eu bod yn teimlo fel un teulu mawr, eu bod yn cydweithio fel tîm ac yn cyd-dynnu er mwyn goresgyn yr heriau sy'n eu hwynebu yn yr amgylchedd gwaith.

¹⁹ Menter gan yr Undeb Ewropeaidd yw'r Rheoliadau Oriau Gwaith a gynlluniwyd i atal cyflogwyr rhag gofyn i'w gweithlu weithio oriau eithriadol o hir.

Derbyniwyd naw holiadur staff wedi'u cwblhau gan amrywiaeth o aelodau o'r staff.

Roedd mwyafrif y staff o'r farn bod digon o staff ar gael fel arfer i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn, er bod chwarter wedi nodi nad oedd byth digon o staff. Roedd yr ymatebion hefyd yn nodi bod tri chwarter y staff o'r farn nad oeddent yn gallu ateb yr holl alwadau croes yn ystod eu hamser yn y gwaith. Roedd un sylw yn cynnwys:

"Mae problemau gyda lefelau staffio yn golygu bod y rhan fwyaf o'r staff yn gorfod gweithio sifftiau ychwanegol a all effeithio ar iechyd. Gall patrymau sifft olygu bod rhywun yn flinedig, gyda phedair sifft nos weithiau yn rhedeg i mewn i sifftiau dydd yn syth"

Cytunodd pob un o'r ymatebwyr mai gofalu am y cleifion yw prif flaenoriaeth y sefydliad, a bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan y cleifion. Roedd pob un yn cytuno y byddent yn argymhell y sefydliad fel lle i weithio, ac y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad pe byddai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal bob amser, gan ddweud bod annibyniaeth y cleifion yn cael ei hybu, ac nid oedd neb yn anghytuno â hyn.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod eu rheolwr yn gefnogol mewn argyfwng personol gan eu hannog i weithio fel tîm, a dywedodd un aelod o'r staff:

"Mae gennym ddwy brif nyrs gefnogol iawn ac ymdeimlad da o dîm o ganlyniad i hynny, gyda phawb yn cefnogi ei gilydd."

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod eu rheolwr uniongyrchol yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u llesiant.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod eu sefydliad yn gweithredu'n deg o safbwynt camu ymlaen yn eich gyrfa neu gael dyrchafiad, ac nad oedd unrhyw wahaniaethu ar sail cefndir ethnig, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd nac oedran. Nododd un o'r ymatebwyr fod claf wedi gwahaniaethu yn ei erbyn ar sail cefndir ethnig.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cael gwiriadau'r Gwasanaeth Cofnodion Troseddol a Gwahardd, a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ers mis

Rhagfyr 2012²⁰. Mae gan y bwrdd iechyd gyfrifoldeb i sicrhau bod mesurau diogelu cadarn ar waith a bod gwiriadau cefndir yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn atal pobl anaddas rhag gweithio gydag oedolion sy'n agored i niwed a phlant.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael arfarniadau personol rheolaidd. Wrth fwrw golwg cychwynol dros y data a gyflwynwyd yn y Cofnod Staffio Electronig, gwelwyd bod 85.19 y cant o'r staff wedi cael arfarniad. Fodd bynnag, o adolygu ffeiliau'r staff, ni chawsom sicrwydd bod yr arfarniadau wedi'u cwblhau, gan nad oedd unrhyw gopïau papur wedi'u llofnodi na'u dyddio.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael amser i gwblhau hyfforddiant gorfodol ar-lein. Cafodd hyn ei adlewyrchu yng nghofnod staffio electronig y bwrdd iechyd a gadarnhaodd fod cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol wedi'i gofnodi yn 87.48 y cant.

Ni wnaethom lwyddo i weld nifer o ddisgrifiadau swydd yn ffeiliau'r staff yr edrychwyd arnynt fel rhan o'r arolygiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Bod mesurau diogelu cadarn ar waith a bod gwiriadau cefndir yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff pobl anaddas eu hatal rhag gweithio gydag oedolion sy'n agored i niwed a phlant
- Y caiff copïau o arfarniadau'r staff eu cwblhau'n llawn, eu llofnodi a'u dyddio, a'u rhoi yn ffeil yr aelod priodol o'r staff.

²⁰ Gwiriadau a wneir ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu i gael manylion am euogfarnau troseddol cyfredol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwn arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd drws y dderbynfa a drws yr ystafell driniaeth yn yr uned mân anafiadau heb eu cloi. Nid oedd unrhyw staff ar ddyletswydd.	Bu modd i AGIC gerdded i mewn i'r dderbynfa a chael gafael ar gardiau argyfwng cleifion sy'n dangos gwybodaeth gyfrinachol am gleifion (Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch). Roedd y ffaith bod drws yr ystafell driniaeth heb ei gloi yn golygu y gallai'r cleifion a'r cyhoedd gael mynediad rhwydd ac anawdurdodedig i feddyginiaethau, cemegion a chyfarpar ac y gallent beri risg o niwed (Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch).	Cododd AGIC hyn gyda Rheolwr y Gwasanaeth sy'n gyfrifol am yr ysbyty.	Ar ôl i AGIC ofyn, cafodd y drysau eu cau a'u cloi.

Roedd yr uned rhewgell wyneb gweithio yn yr ystafell therapi yn cynnwys nifer o brydau wedi'u rhewi a oedd wedi mynd heibio i'w dyddiad darfod neu nad oedd dyddiad darfod arnynt o gwbl a ddefnyddiwyd gan y staff therapi galwedigaethol i adsefydlu'r cleifion.	(Roedd hyn yn peri risg bosibl i gleifion pe byddent yn cael eu bwyta. Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch).	Cododd AGIC hyn â'r nyrs â chyfrifoldeb am y ward.	Ar gais AGIC, cafodd y prydau wedi'u rhewi eu gwaredu.
--	--	--	--

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty: Ysbyty Llanymddyfri
Ward/adran: Ward Brianne a'r Uned Mân Anafiadau
Dyddiadau arolygu: 26 – 27 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Canfyddiad: Gwelodd AGIC dystiolaeth na allai'r ward ddarparu'r nifer priodol o nyrsys cofrestredig y cytunwyd arno ar gyfer rhai sifftiau ar y rhestr waith yn Ysbyty Llanymddyfri. Roedd nyrsys cofrestredig yn gyfrifol am y ward a'r uned mân anafiadau yn ystod y dydd. Roedd hyn yn golygu, ar unrhyw adeg benodol, os nad oedd nifer digonol o nyrsys cofrestredig ar y ward a bod angen cymorth nyrsio yn yr uned mân anafiadau, na fyddai nyrs gofrestredig ar y ward. Dywedodd y staff wrthym fod hyn wedi bod yn mynd rhagddo ers cryn amser. Pwysleisiwyd hyn gan y lleihad	Safon 7.1	Y wybodaeth ddiweddaraf Mae'r lefelau staff nyrsio arfaethedig ar gyfer yr ysbyty wedi cael eu hadolygu ar frys gan ddefnyddio'r fethodoleg a nodir yn y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru). Cafwyd cymorth gan dîm Rhaglen Lefelau Staff Nyrsio y bwrdd iechyd er mwyn cynnal yr adolygiad cychwynnol hwn.	Pennaeth Nyrsio Cymunedol (Sir Gaerfyrddin)	Adolygiad staffio dros dro uniongyrchol wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2019.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
uniongyrchol yn nifer y nyrsys cofrestredig, oherwydd salwch hirdymor staff, swyddi gwag a staff yn gadael y rôl o fewn y deg diwrnod gwaith nesaf am eu bod yn ymddiswyddo neu'n mynd ar gyfnod mamolaeth. Gallai'r ffaith bod prinder nyrsys cofrestredig effeithio ar allu'r gwasanaeth i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Argymhelliad: Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi'r camau gweithredu y bydd yn eu cymryd i AGIC i fodloni'r lefelau staffio priodol y cytunwyd arnynt yn Ysbyty Llanymddyfri er mwyn darparu gwasanaeth sy'n sicrhau y caiff gofal diogel ac effeithiol ei ddarparu.		O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae'r lefelau staff nyrsio sy'n ofynnol yn yr ysbyty wedi cael eu diwygio ac mae Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad Cleifion wedi cadarnhau a chytuno ar dempled dros dro o restrau gwaith staff nyrsio (ar gyfer niferoedd amrywiol o welyau). Cytunwyd y bydd 2 nyrs gofrestrdig ar y rhestr waith ac ar ddyletswydd pryd bynnag y bydd gwasanaeth yr uned mân anafiadau ar agor (h.y. 9am i 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener). Caiff y lefelau staff nyrsio cofrestredig eu hamrywio yn dibynnu ar y defnydd o'r gwelyau, aciwtedd a barn broffesiynol. e.e. 1 nyrs gofrestrdig am bob 7 gwely a gaiff ei addasu i fyny yn seiliedig ar y defnydd o'r gwelyau ac aciwtedd.	Pennaeth Nyrsio Cymunedol (Sir Gaerfyrddin)	Gweithredwyd 03.12.19 Gweithredwyd o 2 Rhagfyr 2019.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Cynhelir adolygiad dyddiol o'r lefelau staffio newydd gan y nyrs gofrestredig sydd â chyfrifoldeb am Ysbyty Cymunedol Llanyddydri er mwyn sicrhau y caiff aciwtedd y cleifion ei ystyried yn ddigonol. Cytunwyd y dylid defnyddio adnodd lefelau gofal cleifion sy'n oedolion yng Nghymru i gefnogi hyn. Caiff proses ffurfiol ei sefydlu sy'n ystyried lefelau aciwtedd / cymhlethdod y cleifion pan gânt eu hatgyfeirio cyn derbyn cleifion i'r ysbyty. Caiff proses uwchgyfeirio glir ei chyflwyno er mwyn llywio lefelau staff nyrsio ac ysgogi adolygiad staffio pan fydd angen. Cynhelir adolygiadau parhaus a chaiff lefelau staff nyrsio eu	Uwch-nyrs	Gweithredwyd 03.12.19 Gweithredwyd 03.12.19 31 Mawrth 2020

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		hailgyfrifo yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Ddeddf Staff Nyrsio Cymru Gyfan, sy'n ystyried aciwtedd, ansawdd a data 'barn broffesiynol'. Mae'r adolygiadau hyn wedi dechrau a bwriedir iddynt gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2020. Caiff y broses adolygu ei harwain gan y Pennaeth Nyrsio proffesiynol ar gyfer yr ysbyty, gyda chefnogaeth tîm Rhaglen Staff Nyrsio'r Bwrdd Iechyd: Caiff unrhyw bryderon pellach, uniongyrchol a ddaw i'r amlwg yn ystod y broses adolygu eu huwchgyfeirio ar unwaith i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol priodol a fydd hefyd yn cael diweddariadau rheolaidd ar hynt yr adolygiad. Dyrannwyd cymorth uwch arweinyddiaeth nyrsio i'r ward:	Pennaeth Nyrsio Cymunedol (Sir Gaerfyrddin) Pennaeth Nyrsio Cymunedol (Sir Gaerfyrddin)	Gweithredwyd Rhagfyr 2019 Gweithredwyd Rhagfyr 2019
				2
				2

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mae prif nyrs ward brofiadol wedi'i secondio i'r ward i roi arweinyddiaeth dros dro (3 diwrnod yr wythnos am y tro). Caiff y trefniant hwn ei adolygu ar 16 Rhagfyr 2019 gan mai dyma yw'r dyddiad y rhagwelir y bydd prif nyrs y ward yn dychwelyd a chaiff ei adolygu gydag ail brif nyrs y ward ar y safle os bydd angen.	Pennaeth Nyrsio Cymunedol (Sir Gaerfyrddin)	I'w Adolygu 16 Rhagfyr 2019

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Sarah Cameron

Swydd: Pennaeth Nyrsio Cymunedol Sir Gaerfyrddin

Dyddiad: 03.12.2019

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Llanymddyfri

Ward/adran: Ward Brianne a'r Uned Mân Anafiadau

Dyddiad arolygu: 26 – 27 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol: - Bod yr ystafelloedd gofal lliniarol yn hollol breifat a bod bylchau o amgylch y ffenestri wedi'u gorchuddio. - Bod y toiledau i ymwelwyr yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn.	4.1 Gofal ag Urddas	Caiff preifatrwydd ei sicrhau gan y bleinds sydd ar ddwy o'r tair ffenestr yn yr ystafelloedd gofal. Cafwyd bleinds ar gyfer y 3ed ffenestr. Y tîm ystadau i adolygu pob ffenestr yn y 3 ystafell gofal.	Rheolwr Gweithrediadau y Dwyrain Ystadau – Rheolwr Gweithrediadau y Dwyrain Ystadau –	25.02.20 Wedi'i gwblhau 25.02.20 Wedi'i gwblhau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nad oes drafftiau yn unrhyw un o ardaloedd y cleifion.		Gorchudd priodol ar gyfer y bylchau o amgylch y ffenestr i gael ei nodi gan yr adran ystadau.	Rheolwr Gweithrediadau y Dwyrain – Ystadau	29.02.2020 Wedi'i gwblhau
		Gwaith i gael ei ddechrau i orchuddio bylchau.	Rheolwr Gweithrediadau y Dwyrain – Ystadau	29.02.2020
		Mae toiledau i ymwelwyr ar gael yn yr uned mân anafiadau, sy'n hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn bob amser. Arwyddion i gael eu diweddarau yn yr uned i hysbysu ymwelwyr am y lleoliad.	Rheolwr y Ward	29.02.2020
		Bydd yr adran ystadau yn cynnal archwiliad o ddrafftiau ar bob ffenestr ac yn mynd i'r afael â nhw yn unol â chanlyniadau'r archwiliad.	Rheolwr Gweithrediadau y Dwyrain – Ystadau	31.03.2020
		Bydd yr adran ystadau yn cwblhau archwiliad o ddrafftiau ar bob drws ac yn	Rheolwr Gweithrediadau y	31.03.2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		mynd i'r afael â nhw yn unol â chanlyniadau'r archwiliad.	Dwyrain Ystadau –	
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol: - Bod hysbysfyrddau newydd yn cael eu gosod yn lle hen rai sydd wedi treulio - Bod gwybodaeth am roi'r gorau i smygu ac iechyd a llesiant yn cael ei chyflwyno ar hysbysfyrddau lle gall cleifion, ymwelwyr a staff ei gweld - Bod gwybodaeth i ofalwyr yn cael ei chyflwyno ar hysbysfwrdd ar y ward a bod hyrwyddwr gofalwyr yn cael ei enwebu.	4.2 Gwybodaeth i gleifion	Y gwasanaeth i nodi dulliau ariannu er mwyn sicrhau y gellir gosod hysbysfyrddau newydd. Cysylltu â'r tîm rhoi'r gorau i smygu (Iechyd Cyhoeddus Cymru) i gael gwybodaeth am roi'r gorau i smygu a dangos y wybodaeth berthnasol. Gwybodaeth am lechyd a Llesiant i gael ei diweddarau ar hysbysfyrddau, a'i monitro o dan y rhaglen hapwiriadau misol er mwyn sicrhau bod pob hysbysiad yn gyfredol. Cysylltu â'r Arweinydd Buddsoddwyr mewn Gofalwyr i gael gwybodaeth	Rheolwr y ward Nyrs Glinigol Arwain Rheolwr y Ward	31.03.2020 27.01.2020 Cwblhawyd 29.02.2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		berthnasol i'w harddangos ar yr hysbysfyrddau. Nodwyd 2 hyrwyddwr gofalwyr sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol. Mae'r ysbyty wedi cael gwobr efydd ar gyfer Buddsoddwyr mewn Gofalwyr.	Rheolwr y Ward	27.01.2020 Cwblhawyd
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol: - Bod gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gael i bob claf - Bod y ward yn cynnwys bwrdd cipolwg ar statws cleifion cyfrinachol - Bod cynllun recriwtio a chadw nyrsys yn cael ei roi i AGIC, gan ddangos sut yr eir i'r afael â phrinder staff.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Cysylltu ag Eiriolaeth Gorllewin Cymru a darparu poster perthnasol, i gael eu harddangos yn yr ardal. Adolygu'r bwrdd cipolwg ar statws cleifion a'i leoli yn swyddfa'r nyrsys. Datblygu cynllun recriwtio a chadw nyrsys a'i gyflwyno i AGIC ar ôl iddo gael ei gwblhau.	Rheolwr y Ward Nyrs Arwain Glinigol Pennaeth Nyrsio Cymunedol	23.01.2020 Cwblhawyd 27.01.2020 Cwblhawyd 31.03.2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol: - Bod y dyddiad a'r amser y rhoddir gofal i'r cleifion yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion - Bod y nifer priodol o nyrsys cofrestredig ar gael i roi gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.	5.1 Mynediad amserol	Y staff perthnasol yn yr ysbyty i gael eu hatgoffa ynghylch safonau'r ddogfennaeth. Bydd hapwiriadau o archwiliadau ar ddogfennaeth yn cynnwys sicrhau bod y dyddiad a'r amser y rhoddir gofal i'r cleifion yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion. Mae'r gwasanaeth wedi lleihau nifer y gwelyau gan sicrhau bod nifer priodol o nyrsys cofrestredig yn darparu gofal effeithiol a diogel. Caiff hyn ei adolygu a'i fonitro'n barhaus drwy waith lefelau staff nyrsio, mewn perthynas â staff nyrsio (Deddf Cymru). Mae aciwtedd a chymarebau staffio yn parhau i gael eu monitro, drwy'r cynllun gwaith hwn.	Nyrs Glinigol Arwain Nyrs Glinigol Arwain Pennaeth Nyrsio Cymunedol	2.02.2020 28.02.2020 03.01.2020 Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol: - Bod cynlluniau rhyddhau yn cael eu cwblhau'n llawn, yn cynnwys cynlluniau adsefydlu a rhyddhau pob claf - Bod lefel y cymorth therapi galwedigaethol sydd ar gael i'r cleifion yn cael ei hadolygu, ac y nodir y therapi yn llawn yng nghofnodion y cleifion.	6.1 Cynllunio Gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth	Caiff defnydd effeithiol o'r ddogfennaeth rhyddhau cleifion ei fonitro a chaiff y staff eu cyfarwyddo ar y gofyniad i'w chwblhau'n llawn.	Rheolwr y Ward	30.03.2020
		Y nodau / cynlluniau adsefydlu a bennir gan y therapyddion i gael eu cadw yn nodiadau'r cleifion.	Rheolwr y Ward	29.02.2020
		Caiff hyn ei fonitro gyda'r hapwiriadau misol a gynhelir gan y Nyrs Arwain Glinigol.	Nyrs Arwain Glinigol	29.02.2020
		Cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 06.02.2020 i adolygu lefel y ddarpariaeth gyda'r arweinydd ar gyfer Therapi Galwedigaethol.	Pennaeth Nyrsio Cymunedol	28.02.2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Caiff y gofyniad i ddogfennu'r gofyniad o ran therapi ei drafod yn y cyfarfod a chaiff y cynllun ei nodi.		
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol: - Bod y ward yn ceisio adborth gan y cleifion ac yn ymateb i brofiadau cleifion a defnyddwyr gan ddangos y gwersi a ddysgwyd a'r gwelliant a wnaed o ganlyniad i hynny - Bod poster Gweithio i Wella dwyieithog yn cael ei roi ar hysbysfwrdd ar y ward.	6.3 Gwranddo a Dysgu o Adborth	Cysylltu â Thîm Profiad y Claf a threfnu cyfarfod er mwyn nodi cynllun ar gyfer y ffordd y gall y tîm gefnogi'r gwasanaeth drwy gael adborth priodol gan gleifion, i gefnogi'r gwersi a ddysgwyd a'r gwelliant yn seiliedig ar adborth gan ddefnyddwyr. Poster dwyieithog i gael eu hargraffu a'u harddangos ar y ward.	Pennaeth Nyrsio Cymunedol Rheolwr y Ward	31.03.2020 16.01.2020 Cwblhawyd
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch			16.01.2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Bod y gofrestr risg leol a chorfforaethol yn adlewyrchu prinder staff nyrsio yn Ysbyty Llanymddyfri, ac effaith darparu gofal nyrsio priodol ar y ward ac yn yr uned mân anafiadau		Mae'r risg i gael ei chofnodi ar gofrestr risg (leol) y gyfarwyddiaeth – mae ei chynnwys a lefel y risg wedi cynyddu i 16. Y risg i gael ei monitro a'i diweddarau yn seiliedig ar asesiad.	Pennaeth Nyrsio Cymunedol	Cwblhawyd
			Pennaeth Nyrsio Cymunedol	29.02.2020
		Y Pennaeth Nyrsio i barhau i weithio gyda'r tîm nyrsio corfforaethol i ystyried materion cysylltiedig, mewn perthynas â lefelau staff nyrsio sy'n effeithio ar y Cyfarwyddiaethau. Aciwtedd a modelau gofal i gael eu hadolygu a'u monitro drwy waith lefelau staff nyrsio i sicrhau gofal nyrsio priodol ar y ward ac yn yr uned mân anafiadau.	Pennaeth Nyrsio Cymunedol	29.02.2020
Nad yw'r ward yn anniben a bod digon o le storio		Mae ardal y ward wedi cael ei thacluso. Lle storio ar y safle i gael ei adolygu. Yr adran ystadau i gwblhau adolygiad archwilio lloriau a gosod llawr newydd	Rheolwr Gweithrediadau y Dwyrain – Ystadau	31.03.2020
			Rheolwr Gweithrediadau y	

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
- Bod y rhannau o'r llawr sydd wedi'u difrodi a'u marcio yn cael eu trwsio neu fod llawr newydd yn cael ei osod - Bod blychau offer miniog yn cael eu cau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio - Bod yr ystafell therapi yn cael ei glanhau, ei chlirio, bod cyfarpar therapi budr yn cael ei lanhau neu fod cyfarpar newydd yn cael ei osod, a bod byrddau sgyrtin sydd wedi torri yn cael eu trwsio neu fod rhai newydd yn cael eu gosod		mewn mannau sydd wedi'u difrodi neu eu marcio yn ôl yr argymhelliad.	Dwyrain Ystadau –	31.05.2020
		Pob aelod o'r staff i gael eu hatgoffa o'r weithdrefn i'w dilyn i waredu a storio offer miniog yn ddiogel.	Rheolwr y Ward	17.01.2020 Cwblhawyd
		Yr ystafell therapi i gael ei glanhau a'i thacluso'n llwyr a'r rhannau o sgyrtin i gael eu trwsio a'u gwneud yn ddiogel. Mae rhaglen adnewyddu dreigl wedi dechrau ar gyfer ailaddurno'r ardal.	Rheolwr Gweithrediadau y Dwyrain Ystadau –	17.01.2020 Cwblhawyd 31.03.2020
		Ni chaiff unrhyw fwyd ei storio yn yr oergell Therapi Galwedigaethol mwyach – Caiff hyn ei fonitro fel rhan o'r hapwiriadau misol.	Rheolwr y Ward	6.01.2020 Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
- Bod bwyd wedi'i rewi ar gyfer annog adsefydlu cleifion yn cael ei storio'n briodol, a bod y dyddiadau defnyddio yn cael eu gwirio'n rheolaidd gan y staff a enwebwyd - Bod pob dyfais diffodd tân yn cael ei gosod ar standiau neu ar y wal - Bod y drysau i'r ward, y gegin ac ystafell y staff yn cael eu cadw ar glo yn ddigonol - Bod y dderbynfa yn yr uned mân anafiadau yn cael ei chloi fel mater o drefn a bod gwybodaeth sensitif am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel - Bod yr ystafell storio yn cael ei glanhau a'i chloi pan nad yw'n cael ei defnyddio		Archwiliad i gael ei gynnal o'r adeilad a phob dyfais diffodd tân i gael ei gosod yn ddiogel ar y waliau.	Rheolwr y Ward	16.01.2020 – Cwblhawyd
		Pwysigrwydd diogelwch i gael ei atgyfnerthu i'r staff – y nyrs â chyfrifoldeb i sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal, 3 chlo digidol ychwanegol i gael eu gosod.	Rheolwr y Ward	16.01.2020 – Cwblhawyd
			Rheolwr Gweithrediadau y Dwyrain – Ystadau	29.02.2020
		Pob aelod o'r staff i gael cyfarwyddyd y dylid ei chloi bob amser pan na chaiff ei defnyddio – mae hapwiriadau wedi cadarnhau bod yr ardal yn ddiogel.	Nyrs Arwain Glinigol	16.01.2020 Cwblhawyd
		Yr ystafell storio i gael ei glanhau a'r staff i gael eu hysbysu ynghylch pwysigrwydd ei chloi pan na chaiff ei defnyddio.	Rheolwr y Ward	16.01.2020 Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
- Bod yr ardal olchi a'r ystafell driniaeth yn cael eu cloi fel mater o drefn pan nad ydynt yn cael eu defnyddio - Bod botwm argyfwng yn cael ei osod yn yr ystafell driniaeth - Bod y dŵr poeth yn cael ei gynnal ar y tymheredd cywir.		I gael ei fonitro drwy'r archwiliad hapwiriadau. Mae hyn wedi cadarnhau'r gwelliant.	Rheolwr y Ward	27.01.2020 Cwblhawyd
		Y staff i gael eu hatgoffa o bwysigrwydd cadw pob ardal yn ddiogel ac ar glo bob amser pan na chaiff ei defnyddio.	Rheolwr y Ward	29.02.2020 Wedi'i gwblhau
		System botwm argyfwng i gael ei gosod yn ystafell driniaeth yr Uned Mân Anafiadau.	Rheolwr Gweithrediadau y Dwyrain – Ystadau	29.02.2020
		Cadarnhau â'r uned Ystadau bod gan bob sinc gweithredol reolyddion, a'u bod yn cael eu harchwilio a bod tymereddau'n cael eu monitro a'u cofnodi.	Rheolwr Gweithrediadau y Dwyrain – Ystadau	

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol: Yn unol ag arferion da, caiff asesiadau risg o friwiau pwysau a niwed i feinweoedd eu hailasesu o fewn 24 awr i dderbyn claf a chaiff asesiad parhaus ei gofnodi ar y siart asesu.	2.2 Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd	Atgyfnerthu gwybodaeth i'r staff er mwyn sicrhau ailasesiad o fewn 24 awr i dderbyn claf. Ailasesiadau parhaus i gael eu cofnodi ar y siartiau rowndiau pwrpasol bob dydd o leiaf. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'r archwiliadau hapwiriadau gan y Nyrs Arwain Glinigol.	Rheolwr y Ward	27.01.2020 Cwblhawyd
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol: - Bod biniau metel newydd yn cael eu darparu - Bod y ward yn cyflwyno gwybodaeth addas a chywir yn seiliedig ar dystiolaeth am heintiau ar hysbysfyrddau'r ward.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Biniau plastig newydd i gael eu harchebu. Y tîm rheoli heintiau i roi posteri Hylendid Dwylo a gwybodaeth berthnasol arall am reoli heintiau ar hysbysfyrddau'r ward.	Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward	31.01.2020 Wedi'i gwblhau 31.01.2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol: Bod anghenion math pob claf yn cael eu hasesu, eu cofnodi a'u diwallu'n ddigonol.	2.5 Maeth a Hydradu	Sicrhau bod pob aelod o staff yn cydymffurfio ag anghenion maeth y cleifion. Caiff hyn ei fonitro drwy'r archwiliadau hapwiriadau gan y Nyrs Arwain Glinigol.	Rheolwr y Ward	27.01.2020 Cwblhawyd
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol: Y defnyddir dull o reoli poen er mwyn cofnodi sgoriau poen a sicrhau effeithiolrwydd prosesau lleddfu poen i bob claf.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Y staff i gael eu hysbysu y dylent ddefnyddio graddfa boen Abbey ar gyfer cleifion â nam gwybyddol. Y staff i gael eu hysbysu o'r angen i ailasesu a dogfennu'r effeithiolrwydd. Caiff hyn ei fonitro drwy'r broses archwilio hapwiriadau.	Rheolwr y Ward	27.01.2020 Cwblhawyd
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol: Caiff storfa amgen ei darparu ar gyfer y cyfarpar a'r dodrefn gyda'r bwriad o	2.9 Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig	Ystyried ardaloedd storio amgen gyda'r adran ystadau.	Rheolwr y Ward	29.02.2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ddileu rhwystrau mewn ardal gyhoeddus.				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol: - Bod pob clinigydd yn nodi'r dyddiad a'r amser ac yn argraffu ac yn llofnodi'r hyn mae'n ei nodi yng ngofnodion y cleifion - Y caiff asesiadau o ymataliaeth y cleifion eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Y staff perthnasol i gael eu hatgoffa o'r angen i gydymffurfio â'r proffil llofnod enghreifftiol, gan sicrhau bod pob llofnod yn ddarllenadwy ac yn cyfateb i'r dyddiad a'r amser, a'r llofnod i gael eu hargraffu ar bopeth a nodir yn nogfennaeth y cleifion. Llyfr llofnodion i gael ei sefydlu, i'r meddygon teulu a phob aelod o'r staff, sy'n nodi pethau yn y nodiadau meddygol a rhoi enghreifftiau o'u llofnodion ar gyfer croesgyfeirio. Aelodau perthnasol o'r staff i gael eu hatgoffa am yr angen i asesu statws ymataliaeth y cleifion a nodi hynny yng nghofnodion y cleifion.	Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward	29.02.2020 29.02.2020 27.01.2020 Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		I gael ei fonitro fel rhan o'r hapwiriadau o ddogfennaeth.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol: - Bod yr Uwch-reolwyr yn cynnal asesiad risg llawn o'r lefelau staffio yn Ysbyty Llanymddyfri ac yn sicrhau bod y nifer cywir o nyrsys cofrestredig ar y rhestr waith ar gyfer pob sifft er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol i bob claf - Mae agenda ar gyfer cyfarfodydd tîm y staff, caiff y cofnodion eu dosbarthu a gofynnir i'r staff gadarnhau eu bod wedi darllen y cofnodion - Bod yr Uwch-reolwyr yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y cyfle i	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae nifer y gwelyau wedi cael ei leihau i gefnogi lefelau staffio diogel. Bydd asesiad parhaus o lefelau staffio yn parhau, gyda chymorth gan dîm rhaglen gorfforaethol staffio nyrsio. Pob cyfarfod yn y dyfodol i gynnwys agenda a chofnodion o'r cyfarfodydd i gael eu cymryd a'u dosbarthu i'r staff. Gofynnir i'r staff lofnodi datganiad yn nodi bod y cofnodion wedi cael eu darllen. Parhau i archwilio modelau gofal amgen er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chyfnodau egwyl i'r staff.	Pennaeth Nyrsio Cymunedol Rheolwr y Ward Pennaeth Nyrsio Cymunedol	31.03.2020 27.01.2020 Cwblhawyd 31.03.2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gymryd egwyl pan fyddant ar ddyletswydd.				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol: - Bod mesurau diogelu cadarn ar waith a bod gwiriadau cefndir yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff pobl anaddas eu hatal rhag gweithio gydag oedolion sy'n agored i niwed a phlant - Y caiff copïau o arfarniadau'r staff eu cwblhau'n llawn, eu llofnodi a'u dyddio, a'u rhoi yn ffeil yr aelod priodol o'r staff.	7.1 Y Gweithlu	Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu, dan arweiniad cydweithwyr gweithlu corfforaethol yn y Bwrdd Iechyd i nodi dull strategol o sicrhau y cynhelir gwiriadau cefndir perthnasol. Mae pob aelod o'r staff y nodwyd bod angen gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd arnynt yn cwblhau dogfennaeth briodol i gydymffurfio â hynny. Dylid atgoffa pob aelod perthnasol o'r staff ynghylch pwysigrwydd cwblhau arfarniadau staff yn llawn, yn cynnwys llofnodion a dyddiadau.	Pennaeth Nyrsio Rheolwr y Ward	31.04.2020 28.02.2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Dylid cadw'r holl arfarniadau staff yn ffeiliau'r staff ar ôl iddynt gael eu cwblhau.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sarah Cameron

Swydd: Pennaeth Nyrsio Cymunedol

Dyddiad: 27.01.2020

